<p># Engagement with Programme and Project Boards.  # Sharing knowledge of other public sector funding streams  # Engagement with Private Sector Advisory Group.  # Private Sector Investment Strategy</p>	SROs	Summer 2022	3	3	9	P	<p># Private Sector Investment Strategy drafted and being reviewed to include by PSAG</p>
<p># Close focus on financial projections to manage funding resource which may not be as high as expected.  # Explore options to flex match funding to counter funding awards.</p>	SROs/ Accountable Body	Thru 2022	3	3	9	O	
<p># SROs to regularly review and agree work plan with Joint Overview &amp; Scrutiny Sub-Committee  # Democratic Support Services to ensure work plan is communicated and meeting preparation is undertaken in advance</p>	SROs	Summer 2020	2	2	4	M	<p># JOSSC meetings commenced Feb 22, work plan agreed for initial meetings.</p>

<p># Clarification of roles and responsibilities in taking the Growth Deal into delivery phase.</p> <p># Clarification of time commitment and support mechanisms.</p> <p># Agreement on SRO appointments (to include Deputy SRO).</p>	CEOs	Mar-22	2	2	4	O	
<p># Detailed clarification provided by WGCIB on process and timescales.</p>	SROs/ Operations Manager	May-22	2	3	6	O	NOTE: this was an action in the PAR for April 22
<p># Induction process to be arranged by GD Adviser with input from PoMO</p> <p># Work programme to be developed by xx</p> <p># Mechanisms for engaging with GD approvals and assurance developed.</p> <p># Continual relationship management arranged.</p>	SROs	Apr-22	2	3	6	P	<p># Draft workplan in development</p> <p># engagement with approvals and assurance being developed</p>
<p># Follow 5 Case Business Model process including assurance and approvals.</p> <p># Clear understanding of Portfolio Business Case and review requirements.</p>	SROs	Jun-22	2	4	8	O	<p># Initial Programmes and Projects defined on development of Portfolio Business Case v1</p> <p># Refresh of Portfolio BC to be undertaken in Summer 22</p>
<p># Detailed breakdown of resource requirements with timescales and potential options.</p> <p># Establishment of Programme Board to consider and explore possible solutions.</p> <p># Discussions regarding budget and potential partner contributions (financial and staff).</p>	SROs	Jun-22	3	3	9	P	<p># Programme Board established with first meeting held April 22 and second May 22 with regular meetings to be established and work plan including resources</p>
<p># Recruitment of Programme Manager to lead on work.</p> <p># Work programme mapped out.</p> <p># Breakdown of resource requirements with timescales and potential options.</p> <p># Discussions regarding funding options/procurement.</p>	SROs	Jun-22	3	3	9	P	<p># Recruitment underway with a view to appointing by July 22</p> <p># Funding opportunities being explored with Welsh Government</p>



## ADRODDIAD I FWRDD TYFU CANOLBARTH CYMRU

21 Mehefin 2022

TEITL:	Diweddariad ynghylch alldro ariannol 2021/22 a chyllideb refeniw arfaethedig Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru ar gyfer 2022/23.
AWDUR:	Justin Davies – Rheolwr Corfforaethol Cyllid Craidd - Ceredigion

### 1. Diben yr adroddiad

1.1. Adrodd ynghylch sefyllfa Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru o ran alldro refeniw ar gyfer 2021/22 ac ystyried cyllideb refeniw 2022/23.

### 2. Penderfyniad(au) a geisir

2.1. Cymeradwyo'r Gyllideb Flynyddol ar gyfer 2022/23.

### 3. Cefndir ac ystyriaethau perthnasol

3.1. Ers i Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru gael ei sefydlu'n ffurfiol trwy'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau ym mis Rhagfyr 2019, mae gweithgarwch datblygu hyd yn hyn yng nghyswllt Bargen Twf Canolbarth Cymru wedi'i ariannu i raddau helaeth gan gyfraniadau ar y pryd gan y ddau Awdurdod Lleol a chyllid grant allanol (Llywodraeth Cymru).

3.2. Cafwyd cyllid refeniw ychwanegol ym mis Chwefror 2021 gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar gyfer elfen o gostau refeniw er mwyn helpu i sefydlu Swyddfa Rheoli'r Portffolio ar gyfer y cyfnod hyd at fis Gorffennaf 2023. Nid oes cyllid wedi'i sicrhau eto ar gyfer Swyddfa Rheoli'r Portffolio y tu hwnt i fis Gorffennaf 2023. Gan fod cytundeb cyllid grant ar wahân yn berthnasol i'r cyllid grant hwnnw, nid yw'n rhan o gyllideb Cyd-bwyllgor Tyfu Canolbarth Cymru.

### 4. Y sefyllfa o ran alldro refeniw ar gyfer 2021/22

4.1. Yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2021, cymeradwyodd Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru gyllideb refeniw o £216,038 ar gyfer 2021/22, wedi'i hariannu yn gyfartal gan Gyngor Ceredigion a Chyngor Powys.

4.2. Roedd cyfanswm y gwariant yn ystod 2021/22 yn £209,412, sef ychydig yn llai na'r gyllideb. Bydd Cyngor Powys a Chyngor Ceredigion yn cyfrannu £104,706 yr un tuag at y gwariant.

4.3. Bydd Datganiad Blynyddol yn cael ei baratoi ar gyfer 2021/22 a bydd yn cael ei archwilio gan Archwilio Cymru. Bydd y Datganiad wedi'i Archwilio yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2022.

## **5. Cyllideb refeniw 2022/23**

5.1. Caiff cyllideb refeniw arfaethedig Cyd-bwyllgor Tyfu Canolbarth Cymru ar gyfer 2022/23, sy'n gyfanswm o £200,000, ei hamlinellu yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn. Y cynnig yw bod y gwariant yn cael ei ariannu'n gyfartal gan Gyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ceredigion.

## **6. Argymhellion**

6.1. Bod y Bwrdd yn nodi'r sefyllfa o ran alldro ar gyfer 2021/2022

6.2. Bod y Bwrdd yn cymeradwyo'r Gyllideb Flynyddol o £200,000 ar gyfer y flwyddyn 2022/2023, i'w hariannu'n gyfartal gan Gyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys fel yr amlinellir yn Atodiad 1.

## **7. Goblygiadau cyfreithiol**

7.1. Deddf Llywodraeth Leol a Chyllid 1972

## **8. Goblygiadau o ran adnoddau dynol**

8.1. Nid oes goblygiadau o ran adnoddau dynol yn codi o'r adroddiad hwn.

## **9. Goblygiadau ariannol**

9.1. Sicrhau cydymffurfiaeth ariannol.

## **10. Atodiadau – Atodiad 1 Cyllideb Refeniw 2022/23**



## REPORT TO GROWING MID WALES BOARD

21<sup>st</sup> June 2022

TITLE:	Update on 2021/22 financial outturn and proposed 2022/23 revenue budget for Growing Mid Wales Board.
AUTHOR:	Justin Davies – Corporate Manager Core Finance - Ceredigion

### 1. Purpose of the Report

- 1.1. To report on the revenue outturn position of the Growing Mid Wales Board for 2021/22 and consider the 2022/23 revenue budget.

### 2. Decision(s) Sought

- 2.1. To approve the Annual Budget for 2022/23.

### 3. Background and Relevant Considerations

- 3.1. Since the formal establishment of the Growing Mid Wales Board via Inter-Authority Agreement in December 2019, development activity to date on the Mid Wales Growth Deal has largely been funded through spot contributions by the two Local Authorities and external grant funding (Welsh Government).
- 3.2. Additional revenue support was received in February 2021 from the Welsh European Funding Office for an element of revenue costs to help establish a Portfolio Management Office for the period up to July 2023. Funding for the Portfolio Management Office beyond July 2023 has not yet been secured. As this grant funding is covered under a separate grant funding agreement it does not form part of the GMW Joint Committee budget.

### 4. 2021/22 Revenue Outturn Position

- 4.1. The GMW Board approved a revenue budget for 2021/22 of £216,038, funded equally between Ceredigion and Powys Councils at its meeting held on 15 December 2021.
- 4.2. The total amount spent during 2021/22 was £209,412, so slightly under budget. Powys & Ceredigion Councils will fund £104,706 each towards the expenditure.

4.3. An Annual Return for 2021/22 will be produced and will be subject to audit by Audit Wales. The Audited Return will be presented for approval by the GMW Board at its meeting in December 2022.

## **5. 2022/23 Revenue Budget**

5.1. A proposed revenue budget for 2022/23 for the GMW Joint Committee totalling £200,000 is outlined in appendix 1 to this report. The proposal is for the expenditure to be funded equally by Powys and Ceredigion County Councils.

## **6. Recommendations**

6.1. The Board notes the outturn position for 2021/2022

6.2. The Board approves the Annual Budget for the year 2022/2023 of £200,000 to be funded equally by Ceredigion and Powys County Councils as outlined in Appendix 1.

## **7. Legal Implications**

7.1. Local Government and Finance Act 1972

## **8. Human Resources Implications**

8.1. There are no HR implications arising from this report.

## **9. Financial Implications**

9.1. To ensure financial compliance

## **10. Appendices – Appendix 1 Revenue Budget 2022/23**

## Appendix 1

<b>GMW Joint Committee</b>
----------------------------

### EXPENDITURE

#### Local Authority Administrative Functions

Finance

Legal

Audit

**Sub-total**

#### Other Functions

Engagement and Events

Communications, Marketing and PR

Translation (papers and meetings)

Assurance Reviews

Lead Officer Costs

EAG support

**Sub-total**

#### External Support

Portfolio Development - HATCH Ltd (PBC/SOCs)

Programme Development - Digital

**Sub-total**

### EXPENDITURE - TOTAL

### INCOME

Funding Contributions

Ceredigion County Council

Powys County Council

### INCOME - TOTAL

Revenue Budget	
2022/2023	
	£5,000
	£5,000
	£2,000
	<b>£12,000</b>
	£500
	£12,625
	£5,000
	£47,875
	£50,000
	£5,000
	<b>£121,000</b>
	£37,000
	£30,000
	<b>£67,000</b>
	<b>£200,000</b>
	£100,000
	£100,000
	<b>£200,000</b>

Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn wag yn fwriadol





## ADRODDIAD I FWRDD TYFU CANOLBARTH CYMRU

21 Mehefin 2022

TEITL:	Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru – Diweddariad ynghylch Cynnydd
AWDUR:	Aggie Caesar-Homden, Rheolwr y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Aggie.caesar-homden@powys.gov.uk

### 1. Diben yr adroddiad.

- 1.1. Rhoi i Aelodau Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru ddiweddariad ynghylch cynnydd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru.

### 2. Cyflwyniad.

- 2.1. Ers yr adroddiad diwethaf, mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn parhau i wneud cynnydd da o ran gweithio gydag arweinwyr busnes a rhanddeiliaid ar draws y rhanbarth i ddeall y ddarpariaeth o ran sgiliau ac anghenion y farchnad lafur, er mwyn sbarduno buddsoddi sy'n bodloni gofynion cyflogwyr a'r gweithlu.
- 2.2. Mae Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi bod yn canolbwyntio ar y meysydd gwaith allweddol sy'n ofynnol, er mwyn darparu rhaglen waith glir i'w dilyn. Mae'r meysydd gwaith allweddol yn cynnwys strwythur, adnabod anghenion, creu partneriaethau a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae Rheolwr y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn parhau i weithio'n agos gyda'n Prif Swyddogion Rhanbarthol a'n rhanddeiliaid rhanbarthol perthnasol i gefnogi Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a pharhau i feithrin ymwybyddiaeth o faterion trawsffiniol.

### 3. Adroddiad ynghylch Sgiliau Gwyrdd.

- 3.1. Bu Data Cymru yn gweithio gyda Rheolwyr y pedair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i ddatblygu Adroddiad ynghylch Sgiliau Gwyrdd, sydd wedi'i rannu â Llywodraeth Cymru i'w ystyried.
- 3.2. Cafodd yr adroddiad ei lansio ddydd Gwener 23 Mawrth 2022.

- 3.3. Bydd yr adroddiad yn waelodlin ar gyfer gwaith pellach a fydd yn edrych yn fanwl ar y sector, ar gyfer Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau newydd 3 blynedd 2022-2025.

#### **4. Adrodd ynghylch Covid-19.**

- 4.1. Adeg drafftio'r adroddiad hwn, roedd yr adroddiad terfynol ynghylch Covid-19 yn cael ei baratoi i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- 4.2. Yn wahanol i'r adroddiadau blaenorol a gyflwynwyd, bydd yr adroddiad terfynol hwn yn crynhoi canfyddiadau dros gyfnod y pandemig ac yn taflu goleuni ar y modd y mae'r pandemig wedi newid y dirwedd o ran cyflogaeth a sgiliau yn y rhanbarth.

#### **5. Cyflwyno Adroddiad ynghylch Dyfarniad Grant y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.**

- 5.1. Cyflwynodd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yr Adroddiad Chwarterol ynghylch Gweithgarwch y Dyfarniad Grant i Lywodraeth Cymru, ac mae'r adroddiad wedi'i gymeradwyo.

#### **6. Y Warrant i Bobl Ifanc.**

- 6.1. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn egluro ymrwymiad uchelgeisiol i gyflawni'r Warrant i Bobl Ifanc, sy'n cynnig cymorth i bawb dan 25 oed i ymgymryd â gwaith, addysg, hyfforddiant neu hunangyflogaeth.
- 6.2. Cafodd y Warrant ei chreu er mwyn sicrhau na fyddai cenhedlaeth yn cael ei cholli ar draws Cymru o ganlyniad i'r dirywiad economaidd a ragwelir a'r cynnydd enfawr mewn diweithdra o ganlyniad i Covid a Brexit.
- 6.3. Ers i'r Rhaglen Lywodraethu gael ei chyhoeddi, mae cyflwr y farchnad swyddi wedi gwella'n gynt o lawer nag a ragwelwyd ac mae'n ymddangos bod y farchnad yn eithaf bywiog, gyda'r galw yn fwy na'r cyflenwad mewn rhai meysydd. Fodd bynnag, mae gan y Warrant i Bobl Ifanc rôl bwysig i'w chwarae o hyd o ran cynorthwyo Llywodraeth Cymru i gyflawni ei nod polisi, sef creu Cymru sy'n fwy teg, yn fwy gwyrdd ac yn fwy llwyddiannus. At hynny, mae angen i'r Warrant i Bobl Ifanc barhau i ganolbwyntio ar y canlynol:
- Cynorthwyo pobl ifanc i gael swyddi mwy cynaliadwy;
  - Sicrhau bod pobl ifanc yn gallu symud yn eu blaen yn y swyddi hyn, ac ystyried a ydym bellach yn wynebu sefyllfa lle bydd cenhedlaeth wedi'i thangyflogi;
  - Cynllunio ar gyfer ail don bosibl o ddiweithdra dros yr ychydig fisoedd nesaf; a
  - Diffyg sgiliau yn y farchnad swyddi, neu sgiliau nad ydynt yn cyfateb i'r swyddi sydd ar gael.

6.4. Crynodeb o'r deilliannau a'r mesurau:

- Pob rhanbarth yn cyflwyno un adroddiad pen-desg i Lywodraeth Cymru erbyn gwanwyn 2022;
- Pob rhanbarth yn cynnal dau ddigwyddiad sy'n cynnwys rhaglenni a phrosiectau;
- Gweithio gyda Cymru'n Gweithio a darparu adroddiad diweddarau er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei hychwanegu at yr adnodd chwilio am gymorth lleol a rhanbarthol;
- Cynhyrchu cyfeiriadur chwilio am gymorth a phhecyn arweiniad ar gyfer cynghorwyr yn lleol er mwyn sicrhau bod yna wybodaeth ac ymwybyddiaeth ynghylch prosiectau a rhaglenni;
- Creu cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau strategol a nodwyd yn ystod y gwaith ymchwil.

6.5. Ar ôl cynnal ymarfer Dyfynbris Cyflym Ilwyddiannus, mae Hatch Associates wedi'u comisiynu i ddarparu cymorth technegol ar gyfer y darn hwn o waith.

6.6. Cynhaliwyd ymarfer i fapio'r ddarpariaeth bresennol. Mae Hatch wrthi'n cynnal cyfarfodydd 1:1 gyda darparwyr a bydd yn cynnal gweithdai gyda phartneriaid er mwyn deall y rhwystrau o ran darpariaeth a chynnydd, yn rhan o'r adroddiad ymchwil pen-desg a'r Cynllun Gweithredu.

6.7. Bydd Hatch yn rhoi diweddariad ynghylch cynnydd i Fwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn y cyfarfod nesaf ar 8 Mehefin 2022.

6.8. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ar lafar y bydd angen gwneud gwaith pellach yn y maes polisi hwn. Caiff mwy o wybodaeth ei darparu maes o law.

## 7. Aelodaeth o'r Bwrdd a Sefydlu Grwpiau Clwstwr.

7.1. Fel y cytunodd Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru yn flaenorol, mae Cadeirydd a Rheolwr y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi adolygu aelodaeth bresennol Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ac wedi sefydlu nifer o grwpiau clwstwr.

7.2. Yn dilyn yr adolygiad hwn, mae grwpiau clwstwr cychwynnol wedi'u sefydlu fel a ganlyn:

- Darparwyr hyfforddiant
- Busnesau
- Gwasanaethau cyhoeddus.

7.3. Yn ogystal â'r grwpiau clwstwr hyn, bydd Grwpiau Gorchwyl a Gorffen ar Bolisi yn cael eu sefydlu hefyd ar gyfer agweddau penodol ar waith polisi Llywodraeth Cymru.

7.4. Cytunwyd y bydd cyfarfodydd Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn cael eu cynnal bob chwarter o fis Gorffennaf 2022 ymlaen, yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru.

7.5. Cytunwyd y bydd Cyfarfod Blynyddol Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn cael ei gynnal ar 11 Gorffennaf 2022 er mwyn caniatáu i'r Gweinyddiaethau newydd gael eu traed danynt ac i'r Aelodau Etholedig ddeall yn iawn bwysigrwydd cyfrifoldebau Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ar draws y rhanbarth a diben rôl y Cadeirydd.

## 8. Blaenraglen Waith.

- 8.1. Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn parhau i ddarparu safbwynt rhanbarthol er mwyn llywio strategaethau sgiliau sector cenedlaethol a strategaethau sgiliau sector y DU a darparu data gwaelodlin ar gyfer cynllunio addysg bellach, gan ddefnyddio gwybodaeth a gaiff ei harwain gan gyflogwyr a data gwybodaeth am y farchnad lafur.
- 8.2. Mae trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal gyda Rheolwyr Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru ynghylch y pethau allweddol sydd i'w cyflawni yn ystod y deuddeg mis nesaf a thu hwnt i hynny, sydd wedi'u cynnwys yn y Nodyn Cyfarwyddyd drafft.
- 8.3. Caiff y cynnwys ei ddiweddarau bob chwe mis a'i ailgyflwyno i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau i gyfeiriad polisi ac adlewyrchu cynnydd o ran cerrig milltir allweddol. At hynny, o ystyried y cyfnod economaidd cythryblus yr ydym yn byw ynddo, gyda'r rhyfel yn nwyrain Ewrop, problemau o ran gwaddol Brexit a phandemig sy'n parhau, gallai fod angen i Lywodraeth Cymru ganolbwyntio o'r newydd ac ar fyr rybudd ar anghenion sy'n codi o ganlyniad i newid annisgwyl.
- 8.4. Mae'r Nodyn Cyfarwyddyd Swyddogol terfynol wedi dod i law. Nid oedd y Llythyrau Dyfarnu Grant wedi dod i law adeg drafftio'r adroddiad hwn.
- 8.5. Bydd arweinwyr polisi perthnasol o bob rhan o Lywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i ddarparu cyd-destun ychwanegol a diweddariadau o'u meysydd.
- 8.6. Cydnabyddir hefyd y bydd angen diweddariadau ar rai meysydd er mwyn adlewyrchu cynnydd. Ni fydd pob maes yn symud yn ei flaen ar yr un cyflymder.
- 8.7. Bydd angen i Lywodraeth Cymru gadw'r gallu i gomisiynu gwaith newydd "yn ystod y flwyddyn".
- 8.8. Bydd angen nodi'r pethau allweddol sydd i'w cyflawni ar gyfer pob un o'r meysydd isod:
  - Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau 2022-25
  - Sgiliau Digidol
  - Sgiliau Sero Net
  - Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol
  - Addysg Bellach a Phrentisiaethau
  - Y Gymraeg.

## 9. Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau.

- 9.1. Bydd gofyn i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ddarparu Cynllun Gweithredu Cyflogaeth a Sgiliau 3 blynedd (2022-25) a fydd yn nodi blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi rhanbarthol sy'n cynnal swyddi a thwf yn rhanbarth y Canolbarth.
- 9.2. Mae trafodaethau cychwynnol ag Uwch-weision Sifil wedi awgrymu y bydd y cynllun yn cael ei ategu gan nifer o atodiadau a fydd yn canolbwyntio ar wahanol feysydd polisi sy'n cael sylw yn y Rhaglen Lywodraethu.
- 9.3. Dylid rhoi sylw ychwanegol i Sgiliau Sero Net, y Gymraeg, Sgiliau Digidol, Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, Addysg Bellach a Phrentisiaethau.
- 9.4. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu templed er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y pedwar rhanbarth.

## 10. Sgiliau Digidol.

- 10.1. Bydd Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn gweithio gyda chyflogwyr a rhanddeiliaid i gasglu gwybodaeth am y farchnad lafur, a fydd yn helpu i lywio penderfyniadau'n ymwneud â sgiliau digidol.
- 10.2. Mae rôl allweddol i'w chwarae hefyd o ran tracio effaith newid yng nghyswllt sgiliau digidol ar draws rhanbarthau Cymru yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.
- 10.3. Mae'n beth cyffredin i sgiliau digidol gael eu nodi'n flaenoriaeth ar draws meysydd polisi a chyflawni llywodraeth, ac mae gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol rôl amlwg i'w chwarae o ran helpu i gyflawni yng nghyswllt cyflogadwyedd a sgiliau. Yn benodol, cyfeirir at sgiliau digidol fel 'Cenhadaeth' drosfwaol yn y Strategaeth Ddigidol i Gymru. Mae "Cenhadaeth Tri" yn egluro'r uchelgais o ran sut y byddwn yn "creu gweithlu sydd â'r sgiliau digidol, y gallu a'r hyder i ragori yn y gweithle ac mewn bywyd pob dydd".
- 10.4. Mae yna heriau y gall Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol helpu Llywodraeth Cymru i'w goresgyn, megis sefydlu darpariaeth newydd o ran sgiliau digidol, ychwanegu cymwysterau gwerthwyr at y Cyfrifon Dysgu Personol, a sicrhau bod sgiliau digidol yn cael eu prif ffrydio a'u gwneud yn rhan annatod o'r ddarpariaeth ôl-16, gan weithio gyda rhanddeiliaid allweddol.
- 10.5. I gyd-fynd â'r Strategaeth Ddigidol i Gymru, cyhoeddodd yr Athro Phil Brown ei adroddiad terfynol ynghylch effaith arloesi digidol ar yr economi a dyfodol gwaith yng Nghymru ym mis Medi 2019. Dywedodd fod Cymru yn wynebu "ras yn erbyn amser" oherwydd bod potensial i ni fethu ag ymateb yn ddigon sydyn fel cenedl i gyflymder a graddfa arloesi digidol. Darparodd ei adroddiad werthusiad o'r realiti a'r tueddiadau a fydd yn llywio dyfodol gwaith yng Nghymru, a'r agweddau sylfaenol sy'n sbarduno economi Cymru yng nghyd-destun y pedwerydd chwyldro diwydiannol.
- 10.6. Bydd Llywodraeth Cymru yn recriwtio uwch-reolwr i'r Tîm Polisi Sgiliau er mwyn symud yn eu blaen argymhellion Adolygiad Brown a'r cynnwys o ran sgiliau sydd yn Cymru Ddigidol.

## 11. Sero Net.

- 11.1. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i gasglu'n benodol wybodaeth gan gyflogwyr am y farchnad lafur er mwyn darparu sylfaen dystiolaeth a fydd yn helpu i lywio penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar alluogi newid, er mwyn cael Cymru Sero Net erbyn 2050. Bydd hynny'n rhan allweddol o'r Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau newydd ar gyfer 2022-25, a gaiff eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2022.
- 11.2. Mae symud i sefyllfa sero net yn cynnig cyfle i greu gweithlu medrus sy'n cael ei dalu'n dda yng Nghymru, a ategir gan lwybr o brentisiaethau allweddol sydd wedi'u halinio â'r agenda Sero Net. Yn ehangach, gall y sylfaen dystiolaeth Sero Net helpu'r holl sefydliadau sy'n cyflenwi sgiliau, o ysgolion i'r sector addysg uwch, addasu'r ddarpariaeth er mwyn bodloni anghenion diwydiant a'r gymdeithas.
- 11.3. Bydd yn hollbwysig adnabod sectorau rhanbarthol allweddol yn yr economi, y bydd symud i sefyllfa sero net yn effeithio arnynt. Bydd angen nodi galwedigaethau penodol sy'n newid neu a fydd yn newid, a dadansoddi sut y bydd yn rhaid i'r gweithlu yng Nghymru sy'n profi'r newid hwnnw addasu, datblygu setiau newydd o sgiliau neu ailaddasu ei sgiliau. Gallai fod yna oblygiadau trawsffiniol hefyd, sy'n cydnabod datganoli a'r systemau sgiliau gwahanol sydd yng Nghymru a Lloegr.
- 11.4. Nid Llywodraeth Cymru sy'n llwyr gyfrifol am yr her o gyflawni'r ymrwymiad i greu Cymru Sero Net. Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn bartneriaethau strategol sy'n cynrychioli eu rhanbarthau a'u rhanddeiliaid, ac mae'n rhaid i bawb gydweithio â'i gilydd er mwyn datblygu atebion sy'n seiliedig ar sgiliau a chyflogadwyedd a symud yr atebion hynny yn eu blaen.

## 12. Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol. Tueddiadau/heriau galwedigaethol.

- 12.1. Caiff Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol eu pennu ar lefel galwedigaeth a chânt eu derbyn yn gyffredinol fel modd i gaffael sgiliau trosglwyddadwy, sy'n hwyluso symud o fewn marchnad lafur hyblyg ar draws sectorau ac ardaloedd daearyddol.
- 12.2. Mae gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol rôl bwysig i'w chwarae o ran sicrhau bod Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn parhau'n gyfredol a'u bod yn diwallu anghenion cyflogwyr a sectorau yn y rhanbarth.
- 12.3. Gofynnir i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol gasglu gwybodaeth ac amlygu galwedigaethau sy'n flaenoriaeth yn y rhanbarth; galwedigaethau sy'n dod i'r amlwg ac sy'n tyfu, y mae angen sgiliau penodol / cymwysterau newydd arnynt; galwedigaethau sy'n wynebu newidiadau posibl i arferion gwaith, newidiadau technolegol a / neu reoliadau neu ofynion deddfwriaethol newydd, e.e. o ran lechyd a Diogelwch; a galwedigaethau sy'n dirywio.

12.4. Gofynnir i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ddsbarthu galwedigaethau ar lefel codau'r Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol er mwyn gallu cyfeirio cyllid/adnoddau at feysydd penodol lle ceir bylchau.

### **13. Addysg Bellach a Phrentisiaethau.**

13.1. Gofynnir i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol nodi blaenoriaethau rhanbarthol a / neu isranbarthol ar gyfer darparu Addysg Bellach, a darparu cyd-destun ategol a rhesymeg glir, gan ddefnyddio ffynonellau a gaiff eu harwain gan gyflogwyr.

13.2. Mae disgwyl i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol sicrhau bod sylfaen dystiolaeth gadarn ar gael, a allai gynnwys, er enghraifft, sectorau y mae Brexit neu Covid wedi effeithio arnynt, neu'r angen i ddenu talent a setiau penodol o sgiliau i'r rhanbarth o ganlyniad i brosiect mewnfuddsoddi sy'n digwydd neu sydd wedi'i gynllunio.

13.3. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob rhanbarth nodi uchafswm o bump o flaenoriaethau.

13.4. Prentisiaethau – fel uchod, ond canolbwyntio ar flaenoriaethau y dylai'r rhwydwaith darparwyr ymateb iddynt ar gyfer y flwyddyn 2023-24.

### **14. Y Gymraeg.**

14.1. Nod Strategaeth Llywodraeth Cymru, sef Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, yw creu mwy o siaradwyr Cymraeg a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd.

14.2. Mae gofyn i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol gynnwys adran fanwl ar sgiliau Cymraeg yn eu Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau 3 blynedd 2022-25.

14.3. Mae angen i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol weithio'n agos gyda sefydliadau perthnasol/defnyddio'r arbenigedd sydd ar gael mewn sefydliadau perthnasol ledled Cymru sy'n darparu cymorth a gwybodaeth leol am y gofynion o ran sgiliau Cymraeg yn lleol.

### **15. Yn yr arfaeth – meysydd ychwanegol y gallai Llywodraeth Cymru eu comisiynu dros y 18 mis nesaf.**

- Dadansoddiad o anghenion y Sector Gofal Cymdeithasol o ran sgiliau
- Anghenion y Sector Creadigol o ran sgiliau a'r angen i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol weithio'n agos gyda Cymru Greadigol.

### **16. Goblygiadau cyfreithiol**

16.1. Nid oes goblygiadau cyfreithiol yn codi o'r adroddiad hwn.

### **17. Goblygiadau o ran adnoddau dynol**

17.1. Nid oes goblygiadau o ran adnoddau dynol yn codi o'r adroddiad hwn.

## **18. Goblygiadau ariannol**

18.1. Nid oes goblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

## **19. Atodiadau**

19.1. Dim





## REPORT TO THE GROWING MID WALES BOARD

21 June 2022

TITLE:	Mid Wales Regional Skills Partnership – Progress Update
AUTHOR:	Aggie Caesar-Homden, RSP Manager. Aggie.caesar-homden@powys.gov.uk

### 1. Purpose of the Report.

- 1.1. To provide Members of the Growing Mid Wales Board with an update on progress of the Mid Wales Regional Skills Partnership.

### 2. Introduction.

- 2.1. Since the last report, the Regional Skills Partnership continues to make good progress working with business leaders and stakeholders across the region to understand the skills provision and labour market needs, in order to drive investment that meets the requirements of both employers and workforce.
- 2.2. The RSP Board has been focused on the key areas of work required, in order to provide a clear programme of work to pursue, including the key areas of structure, needs identification, partnership building and future planning. The RSP Manager continues to work closely with our respective Chief Regional Officers and regional stakeholders to support Regional Economic Frameworks, WG priorities and continue to build awareness of cross-border issues.

### 3. Green Skills Report.

- 3.1. Data Cymru worked with the four RSP Managers to develop a Green Skills Report that has been shared with WG for consideration.
- 3.2. The report was launched on Friday 23 March 2022.
- 3.3. The report will form the baseline for further deep dive work into the sector for the new 3-year Employability and Skills Plan 2022 – 2025.

### 4. Covid – 19 Reporting.

- 4.1. At the time of drafting this report, the final Covid-19 report was being prepared for submission to Welsh Government.

4.2. Unlike the previous reports submitted, this final report will act as a summary of findings over the pandemic and shed light on how the employment and skills landscape of the region has been changed by the pandemic.

## **5. RSP Grant Award Report Submission.**

5.1. The RSP submitted the quarterly Grant Award Activity Report to WG which has been approved.

## **6. Young Persons Guarantee.**

6.1. The Programme for Government (PfG) sets out an ambitious commitment to deliver the Young Persons Guarantee, giving everyone under 25 the offer of support into work, education, training, or self-employment.

6.2. The guarantee was set to ensure no lost generation across Wales due to the predicted economic downturn and the huge rise in unemployment as a result of Covid and Brexit.

6.3. Since the PfG was published, the job market has recovered far more rapidly than predicted and seems to be buoyant with demand in some areas outweighing supply. However, the YPG still has an important role to play in supporting Welsh Government reach its policy goal of becoming a fairer, greener, and more successful Wales. The YPG also needs to continue to focus on:

- Assisting young people into more sustainable job roles;
- Progression for young people within these jobs and whether we now face a generation of under-employment;
- Planning for a possible second wave of unemployment over the next few months; and
- The lack of skills or skills mismatch within the labour market.

6.4. Summary of the outcomes and measures:

- One desktop report per region by Spring 2022 submitted to Welsh Government;
- Two events per region involving programmes and projects;
- Work with Working Wales and provide an update report to ensure that all the information is added to the support finder and local support finder;
- Local support finder directory and guidance pack produced for advisors locally to ensure that information and awareness of projects and programmes are available;
- An action plan in relation to any strategic barriers identified during the research work.

6.5. Following a successful Quick Quote exercise, Hatch Associates have been commissioned to provide technical support for this piece of work.

- 6.6. A mapping exercise of current provision has been undertaken. Hatch are currently holding 1:1 meetings with providers and will conduct workshops with partners to understand barriers to provision and progression as part of the desktop research report and Action Plan.
- 6.7. A progress update will be provided by Hatch to the RSP Board at the next meeting on 8 June 2022.
- 6.8. WG have verbally confirmed that there will be further work needed in this policy area. Additional information will be provided in due course.

## **7. Board Membership and Establishment of Cluster Groups.**

- 7.1. As previously agreed by the GMW Board, the RSP Chair and RSP Manager have reviewed current RSP Board membership and the establishment of a number of cluster groups.
- 7.2. Following this review, initial cluster groups have been established:
- Training Providers
  - Businesses
  - Public Services
- 7.3. In addition to these cluster groups Policy Task and Finish Groups will also be established for specific areas of WG Policy work.
- 7.4. It has been agreed that RSP Board meetings will be held quarterly from July 2022, in line with Welsh government requirements.
- 7.5. It has been agreed that the RSP Board Annual Meeting will be held on 11<sup>th</sup> July 2022 to allow the new Administrations to settle in and for Elected Members to fully understand the importance of the RSP Board's responsibilities across the region and the purpose of the Chair's role.

## **8. Forward Work Programme**

- 8.1. The RSP continues to provide a regional perspective to inform national and UK sector skills strategies and to provide baseline data for FE planning, using employer led intelligence and LMI data.
- 8.2. Initial discussions have been undertaken with RSP Managers and WG in relation to key deliverables for the next twelve months and beyond contained in the draft Guidance Note.
- 8.3. The content will be refreshed on a six-monthly basis and reissued to RSPs to reflect any changes to policy direction and progress against key milestones. Also, given the turbulent economic times we are living in, with war in eastern Europe, legacy Brexit issues and an ongoing pandemic, WG may need to refocus at short notice to needs arising from unexpected change.
- 8.4. The final Official Guidance Note has been received. Grant Award Letters have not been received at the time of drafting this report.

- 8.5. Relevant policy leads from across Welsh Government will work closely with RSPs to provide additional context and provide updates from their areas.
- 8.6. It is also recognised that some areas will require updates to reflect progress. Not every area will progress at the same speed.
- 8.7. WG will need to retain the ability to commission new work, “in year.”
- 8.8. Key deliverables will be required for each of the below areas:
  - Employment and Skills plans 2022-25
  - Digital skills
  - Net Zero skills
  - National Occupational Standards (NOS)
  - Further Education and Apprenticeships
  - Welsh Language

## **9. Employment and Skills Plan.**

- 9.1. RSPs will be asked to provide a 3-year Employment and Skills Action Plan (2022 – 2025) which will identify priorities for regional investment that supports jobs and growth in the Mid Wales region.
- 9.2. Initial discussions with Senior Civil Servants have indicated that the plan will be supplemented by a number of annexes which will focus on different policy areas that feature in the Programme for Government.
- 9.3. Additional focus should be given to Net Zero, Welsh Language, Digital Skills, National Occupational Standards, Further Education and Apprenticeships.
- 9.4. A template will be provided by WG to ensure consistency across all four regions.

## **10. Digital Skills.**

- 10.1. RSPs will work with employers and stakeholders to collate labour market intelligence which will help inform decision making centred around digital skills.
- 10.2. There is also a key role to track the impact of change around digital skills, across the regions of Wales over the coming years.
- 10.3. Digital skills are commonly highlighted as a priority across areas of government policy and delivery and RSPs have a clear role to play to help deliver in relation to employability and skills. Specifically, digital skills is referenced as an overarching ‘Mission’ within the Digital Strategy for Wales. “Mission Three” sets out the ambition of how we will “Create a workforce that has the digital skills, capability and confidence to excel in the workplace and in everyday life.”
- 10.4. There are challenges that RSPs can help WG overcome such as establishing new digital skills provision, such as adding vendor qualifications within Personal Learning Accounts (PLAs), and ensure digital skills are mainstreamed and hardwired across post-16 provision, working with key stakeholders.

- 10.5. Aligned to the Digital Strategy for Wales, Professor Phil Brown published his final report into the impact of digital innovation on the economy and the future of work in Wales in September 2019. He spoke of Wales facing a "race against time", with the pace and scale of digital innovation having the potential to overtake our ability as a nation to respond. His report provided an evaluation of the realities and trends that will shape the future of work in Wales and the underlying drivers of the Welsh economy in the context of the fourth industrial revolution.
- 10.6. WG will be recruiting a senior manager to the Skills Policy Team to progress the recommendations of the Brown Review and the skills content of Digital Wales.

## **11. Net Zero.**

- 11.1. RSPs have been commissioned by Welsh Government to specifically collate labour market intelligence from employers, to provide an evidence base which will help inform decision making focused on enabling change, to meet the goal of a Net Zero Wales by 2050. This will be a key part of the new employment and skills plans covering 2022-25, which will be submitted to Welsh Government in August 2022.
- 11.2. Moving to Net Zero presents the opportunity to create well a paid, skilled Welsh workforce, supported by key Net Zero aligned apprenticeships as a pathway. More broadly, the Net Zero evidence base can help the whole skills supply side, from schools to higher education, adapt provision to meet industry and societal needs.
- 11.3. Identifying key regional sectors of the economy that will impacted by the transition to Net Zero will be vitally important. There will be a need to identify specific occupations that are or will be undergoing change and an analysis of how the Welsh workforce undergoing that change will have to adapt, develop new skillsets or re-adapt their skills. There may also be cross-border implications acknowledging devolution and different skills systems between England and Wales.
- 11.4. The challenge to deliver the Net Zero Wales commitment does not solely rest with Welsh Government. RSPs act as strategic partnerships representing their regions and stakeholders and everyone must work together to develop and drive forward skills and employability-based solutions.

## **12. National occupational standards (NOS). Occupational trends/challenges.**

- 12.1. NOS are set at the level of occupation and act as a common currency to enable the acquisition of transferable skills, which support movement within a flexible labour market across sectors and geographies.
- 12.2. The RSPs have an important role to play in ensuring that NOS remain up-to-date and meet the needs of employers and sectors in the region.

12.3. RSPs are asked to gather intelligence and reference priority occupations in the region, emerging and growth occupations which require particular skills / new qualifications, occupations facing potential changes to working practices, technological changes and / or new regulations or legislative requirements e.g. Health and Safety, and occupations that are in decline.

12.4. RSPs are asked to classify occupations at the level of Standard Occupational Classification (SOC) codes to allow funding/resources to be directed to specific gap areas.

### **13. Further Education and Apprenticeships.**

13.1. RSPs are asked to identify regional and / or sub regional priorities for Further Education delivery and provide supporting context and a clear rationale, drawing from employer led sources.

13.2. RSPs are expected to ensure there is a robust evidence base, which could include for example, sectors impacted by Brexit or Covid or the need to attract talent and specific skill sets into the region due to a planned or existing inward investment project.

13.3. WG expect no more than five priorities to be identified, per region.

13.4. Apprenticeships – as above but to focus on priorities that the provider network should respond to for the year 2023-24.

### **14. Welsh Language.**

14.1. The Welsh Government's strategy Cymraeg 2050: A million Welsh speakers aims to create more Welsh speakers and increase the use of the Welsh language on a day-to-day basis.

14.2. RSPs are required to include a detailed section on Welsh language skills within their three-year employment and skills plan 2022-25.

14.3. RSPs need to work closely with/utilise expertise available within relevant organisations across Wales that provide support and local intelligence on Welsh language skill requirements.

### **15. In the pipeline - additional areas that WG may commission over the next 18 months.**

- An analysis of the skills needs of the Social Care Sector
- Creative Sector skills needs and the need for RSPs to work closely with Creative Wales.

### **16. Legal Implications**

16.1. There are no legal implications arising from this report.

### **17. Human Resources Implications**

17.1. There are no HR implications arising from this report.

### **18. Financial Implications**

18.1. There are no financial implications arising from this report.

### **19. Appendices**

19.1. None

Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn wag yn fwriadol